OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3265 (Cy.286)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*9 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*20 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adrannau 79C a 104(4) o Ddeddf Plant 1989.(**1**)

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 20 Ionawr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002(2)

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) yn y diffiniad o "corff" ("*organisation*") ar ôl "corff corfforaethol" ychwaneger "neu gymdeithas anghorfforedig".

(3) Yn rheoliad 4(2)(b)(i) ar ôl "un o'i swyddogion eraill" ychwaneger "os corff corfforaethol neu swyddog neu aelod o gorff llywodraethu pan fo'r corff yn gymdeithas anghorfforedig yw'r corff hwnnw".

(4) Ar ddiwedd Atodlen 3 ychwaneger—

> "(14) Enw, cyfeiriad cartref a Rhif ffôn pob aelod cyfredol o bwyllgor neu gorff llywodraethu cymdeithas anghorfforedig."

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd adran 79C gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14).
(**2**) **O.S. 2002/812 (Cy.92).**